# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Craffu Lle**
**Neuadd y Sir Brynbuga**
**Dydd Iau, 10fed Tachwedd, 2022, 10.00 am**

| Cynghorwyr yn Bresennol | Swyddogion yn Bresennol |
| --- | --- |
| Cynghorydd Sir: Lisa Dymock (Cadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sir: Louise Brown, Emma Bryn, Ben Callard, Ian Chandler, Tomos Davies, Jane Lucas, Su McConnel, Maria Stevens, Jackie Strong, Jan Butler, Tony Easson, Paul Griffiths, Sara Burch, Christopher Edwards, Catherine Fookes, Simon Howarth, Frances Taylor | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Mark Hand, Pennaeth Llunio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd<br>Paul Keeble, Peiriannydd Grŵp (Priffyrdd a Rheoli Llifogydd)<br>Nicholas Keyse, Estates Development Manager<br>Graham Kinsella, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffordd<br>Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio |

**APOLOGIES:** Dim

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Roedd y Cynghorydd Chandler wedi datgan buddiant na sy'n rhagfarnu fel cyn-weithiwr gydag Amnesty International.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Roedd Shaun Hartley wedi trafod y pwnc Stratgaeth a Ffefrir CDLlD.

   Roedd Hugo Perks wedi siarad am bwnc y ddeiseb o dan Eitem 4 sy'n ymwneud gyda defnydd y Cyngor o beirianwaith JCB.

3. **Deiseb: Goryrru ar Heol Birbeck, Cil-y-coed**

   Deiseb wedi ei thynnu nôl. Yn dilyn sgyrsiau gyda swyddogion, dywedodd y Cynghorydd Easson fod camau yn cael eu cymryd ar Ffordd Birbeck i leihau'r cyflymder, a monitro effeithiolrwydd y mesurau hynny. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith.

4. **Deiseb: Defnydd y Cyngor o Beiriannau JCB**

   Roedd y Cynghorydd Davies wedi mynegi ei wrthwynebiad i'r mudiad boicot a chosbau yn erbyn Israel. Tra'n cydnabod gwewyr pobl Palesteina, gobeithiodd y byddai'r Cyngor yn atgyfnerthu ei gefnogaeth tuag at Israel fel yr unig ddemocratiaeth yn y Dwyrain Canol, a chynigiodd na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

Roedd y Cynghorydd Callard hefyd wedi cynnig na ddylid cymryd camau pellach ac ni ddylai Cyngor wneud dim byd mwy.

Roedd y Cynghorydd Chandler yn anghytuno gyda'r datganiad mai Israel yw'r unig ddemocratiaeth yn y rhanbarth. Roedd wedi mynegi cydymdeimlad ar gyfer y rheswm dros y cynnig a nododd fod y gymuned ryngwladol wedi datgan dro ar ôl tro bod Israel yn meddiannu'r tir yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r cynnig yn rhy arwynebol ond hoffai nodi y byddai'r Cyngor ar ryw bwynt yn mynegi cadernid gyda phobl Palesteina, ac yn galw ar Lywodraeth Israel i dynnu nôl ac yn galw ar y busnesau rhyngwladol sydd yn gwneud busnes yno i dynnu nôl hefyd.

## 5. Trafodaeth o Flaenraglen Waith y Pwyllgor

Gofynnodd y Cynghorydd Chandler bod Band Eang Gwledig, a oedd ar agenda heddiw yn wreiddiol, yn cael ei ychwanegu at yr agenda wythnos nesaf. Nododd y Cynghorydd Howarth fod yna drafodaeth yn y Pwyllgor Buddsoddi yr wythnos hon am bapur sydd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn cyn hir am fand eang y sir – efallai y bydd yn helpu i lywio'r drafodaeth ac ateb rhai cwestiynau.

## 6. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Mehefin 2022

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'u harwyddwyd fel cofnod cywir.

Gofynnodd Chandler am y 'materion sy'n codi' a chytunodd swyddogion i ddarparu rhestr o'r camau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod. Roedd y Cynghorydd Brown wedi cytuno. Awgrymodd y Cynghorydd Strong y dylid cysylltu'r cynllun gweithredu gyda'r blaenraglen waith.

## 7. Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig: Strategaeth a Ffefrir

Roedd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths wedi cyflwyno'r eitem. Roedd Craig O'Connor a Mark Hand wedi rhoi cyflwyniad ac wedi ateb cwestiynau'r Aelodau gyda'r Cynghorydd Griffiths a'r Cynghorydd Burch. O ran y sylwadau a wnaed yn y Fforwm Agored Cyhoeddus, nododd Mark Hand fod y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a'r Cynllun Seilwaith hefyd i'w cyflwyno gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyfnod adneuo hwyrach; dyma gam gyntaf o'r ymgynghoriad statudol. Mae swyddogion yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau ac yn datblygu pethau yn y ffordd gywir - bydd y materion sy'n codi yn cael eu hystyried yn llawn wedyn.

**Her:**

*A oes yna sicrwydd y bydd yna gyllid ar gyfer cysylltiadau teithio llesol i'r safleoedd newydd yma cyn bod y tai yn cael eu hadeiladu? E.e. mae safle'r Fenni yn agos at ffordd brysur a rheilffordd, ac mae'n annhebygol y bydd pobl yn cerdded neu'n seiclo i'r dref drwy gyffordd Hardwick, ac unwaith eu bod yn cael car, ni fyddant wedyn yn defnyddio dulliau teithio llesol.*

Nid ydym eto wedi cyrraedd y cam lle y mae modd i ni roi sicrwydd am y cyllid ond mae'r polisi cynllun cenedlaethol wedi ei ddiweddaru'n ddiweddar er mwyn cynnig eglurder am deithio llesol a'r amserlen ar gyfer datblygu a chyflenwi, fel bod hyn yn cefnogi datblygiadau newydd yn y ffordd a ddisgrifir. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm Teithio Llesol. Roedd y safleoedd strategol yma hefyd wedi eu hystyried yn y mapiau rhwydwaith integredig fel bod modd cadw opsiynau yn agored ar gyfer blaenoriaethau'r dyfodol, ac mae'r mapiau rhwydwaith yma yn

mynd i fod yn sylfaen ar gyfer ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. Y bwriad yw sicrhau bod y llwybrau yma yn eu lle ar y dechrau a bod cyllid ar eu cyfer.

Nid ydym yn medru dychmygu datblygu safle'r Fenni heb fod yna gysylltiad eglur ar draws y rheilffordd ac i'r dref. Rydym eisoes yn buddsoddi mewn llwybr teithio llesol i safle Cil-y-coed o'r canol, ac rydym yn gobeithio cwblhau hyn cyn bwrw ymlaen gyda'r datblygiad preswyl. Mae yna gynlluniau yn barod i gysylltu safle Bayfield gyda'r ysgolion a chanol tref Cas-gwent; rhaid i ni sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau cyn/neu ar y cyd gyda'r datblygiad preswyl.

*Mae yna lawer o ddatblygiadau gyda ystadau o dai yn cael eu defnyddio ond nid oes yna wasanaethau yn cael eu hadeiladu gyda hwy. Beth sydd yn bosib ei wneud er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yma yn eu lle er mwyn creu cymunedau a chadw trigolion allan o'u ceir?*

Rydym yn gweithio gyda mudiadau amrywiol ar agweddau gwanhaol. Mae un yn cynnwys bod rhai safleoedd yn ddatblygiadau defnydd cymysg ac mae un arall yn ymwneud gyda lleoedd mewn ysgolion, sydd yn weddol syml gan ein bod ni fel awdurdod addysg lleol yn medru delio gyda chapasiti ac angen. Y rhan fwyaf cymhleth yw'r seilwaith iechyd ac rydym yn gweithio gyda BIPAB e.e. yn y cyfarfodydd diweddar a'r rhai sydd i'w cynnal o'r grwpiau Meddygon Teulu yn Sir Fynwy. Byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda hwy wrth i'r broses hon ddatblygu.

*Rydym angen mwy o 'uchelgais' o ran sero net; rydym angen 'gofyniad'. A oes modd cynnig sicrwydd am hyn?*

Rydym wedi danfon nodyn manwl at y sawl sydd yn hyrwyddo'r safleoedd yn nodi ein bod am weld Sero Net, sy'n mynd y tu hwnt i'r rheoliadau adeiladu. Bydd y polisi strategol yn dweud bod angen i bob cartref sy'n caei adeiladu fod yn sero net yn barod. Bydd y polisi manwl yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach yn y cynllun – dyma weledigaeth ehangach y cynllun - dyna pam ein bod yn defnyddio 'uchelgais' ond rydym yn sicrhau bod sero net yn ofyniad.

*Beth am yr effaith ar ardaloedd gwledig? Sut ydynt yn cael eu datblygu mewn modd ffafriol?*

Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn ffocysu ar ganol trefi yn gyntaf, gan sicrhau eu bod yn hyfyw a'n cael eu diogelu yn y tymor hir. Rhaid i ni ystyried dulliau newydd o gyflenwi, e.e. defnyddio canol trefi yn wahanol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlygu'r angen am wasanaethau cymunedol yng nghanol y trefi. Y ddogfen hon yw'r strategaeth a ffefrir, ac felly nid yw'n cynnwys y manylder eto ond byddwn yn datblygu polisïau manwl ynglŷn â sut ydym am wneud hyn. Mae'r CDLID yn clustnodi tir i'w ddatblygu ond mae yna ystod o bolisïau cynllunio sydd i'w defnyddio ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried lefel strategol y twf: mynd i'r afael gyda fforddiadwyedd, yr heriau demograffeg, yr agenda newid hinsawdd ayyb. Mae hefyd yn werth cofio'r hyn y mae'r broses gynllunio yn stopio yn ogystal â'r hyn y mae'n caniatáu e.e. agwedd arall o gefnogi canol y trefi yw atal datblygiadau manwerthu y tu allan i ganol y trefi. Felly, mae rhai mesurau ataliol yn cefnogi canol trefi.

*O ran y nifer o setliadau gwledig gwahanol e.e. setliadau Haen 4, mae nifer o'r rhain yn ardal dalgylch Gwy Uchaf, na sydd o reidrwydd wedi ei gydnabod – a oes modd cael eglurder ynglŷn â hyn?*

Mae unrhyw ddatblygiadau yn y mannau yma yn eu cael eu hystyried o ran y ffosffadau a chanllaw cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru h.y. yn dangos ein bod yn cyflwyno tystiolaeth o niwtraliaeth maethynnau ac ni fydd unrhyw ddatblygiad yn cael effaith adweithiol ar gadwraeth afonydd. Bydd hyn yn parhau tan fod yr afon mewn sefyllfa mwy ffafriol. Mae'r strategaeth yn amlinellu y bydd 100 o gartrefi yn cael eu clustnodi yn yr aneddiadau llai: nid ydym wedi dewis

pa rai eto. Mae ychydig o'r wybodaeth sydd angen yn mynd i ddod i law yn ystod y cam cynllunio adneuo. Yn Nhabl 1 o'r adroddiad, rydym wedi tynnu pob un rhagdybiaeth oddi yno o ddalgylch dyffryn Gwy Uchaf. Nid ydym wedi derbyn y tueddiadau blaenorol a wnaed o'r enillion posibl.

*Beth a olygir o ran yr effeithlonrwydd ynni? A ydym yn cyrraedd y pwynt lle y byddwn ni fel yr Adran Gynllunio yn medru dweud na fydd y pethau yma yn cael eu cymeradwyo os nad yw'r elfennau yma yn eu lle?*

Rydym yn gweithio o fewn fframwaith polisi cynllunio o 2014. Mae'n bositif bod y strategaeth a ffefrir yn cynnig ein bod yn anelu am lefel uchel o gartrefi sero, ac felly, bydd yn rhoi cyfle i Aelodau i wrthwynebu datblygiadau na sydd yn cwrdd â'r safonau. Bydd yn wahanol ar gyfer safleoedd gwahanol h.y. p'un ai bod paneli solar yn gwneud y cartref yn sero net neu rhywbeth arall. Dylai ychydig o'r polisi yma fod ar lefel genedlaethol ond yn Sir Fynwy, rydym am sicrhau bod datblygwyr yn atebol.

*A fydd yna gwestiwn ychwanegol ar safleoedd ymgeisiol?*

Mae'r safleoedd ymgeisiol yn adroddiad y Cyngor ar gyfer 1af Rhagfyr – bydd cais i'r Cyngor i gymeradwyo'r strategaeth hon ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus; cytuno bod y gofrestr o safleoedd ymgeisiol yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus a chyflwyno'r cytundeb cyflenwi i Lywodraeth Cymru (yr amserlen a'r cynllun cynnwys cymunedol); asesiad o'r rheoliadau cynefinoedd a'r gwerthusiad cynaliadwyedd integredig. O ran y safleoedd ymgeisiol, mae'n gyfle i bobl i gynnig sylw ar bopeth sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r broses, gan gynnwys y 3 safle strategol.

*O ran datblygiad arfaethedig Fforest y Ddena yn Lydney, roeddem wedi cynnig ffordd osgoi a theithio llesol – onid yw hyn hefyd yn berthnasol i Gas-gwent a Chil-y-coed? Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi moratoriwm ar adeiladu ffyrdd ond os nad oes modd adeiladu ffyrdd, sut mae modd adeiladu tai os nad oes modd i ni adeiladu'r seilwaith cywir? Oni fydd Cas-gwent yn dod i stop gyda'r holl gartrefi sydd yn cael eu hadeiladu a'r traffig a fydd yn deillio o ddatblygiadau Cil-y-coed a Fforest y Ddena?*

Ydym – rydym angen ystyried safleoedd strategol ehangach a chyfran y twf. Rydym yn hapus fod 68% o'r twf hwnnw yng Nghas-gwent a Chil-y-coed ond mae rhaid i ni ystyried y materion seilwaith yn eu cyfanrwydd. Mae'n werth nodi fod cyfran sylweddol o dwf Cas-gwent wedi ei wthio i Gil-y-coed, sydd yn rhan o'r un farchnad dai ond mae yna gyfyngiadau sylweddol ar Gas-gwent. Rydym yn ymwybodol o'r materion sydd wedi eu codi, fel sut ydym yn cysylltu gyda Fforest y Ddena a sut y bydd y safleoedd yn gweithio.

Yr hierarchaeth yn y polisi cynllunio cenedlaethol a thrafnidiaeth yw: i ddechrau, mae'n ymwneud gyda lleihau'r angen i deithio (sicrhau bod y datblygiadau yn gynaliadwy, estyniadau trefol ar yr aneddiadau cyfredol gyda'r amwynderau mwyaf e.e. y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy), yna mae'n ymwneud gyda theithio llesol (gyda safleoedd o fewn pellter cerdded a seiclo i ganol y trefi a seilwaith trafnidiaeth), ac yna trafnidiaeth gyhoeddus. Mae yna faterion cymhleth i'w datrys dros y blynyddoedd nesaf, ond mae yna resymeg yn rhan o'r safleoedd sydd wedi eu nodi, ac mae'n briodol fod y twf yn rhan o'r trefi mwy gyda'r amwynderau hynny.

*Beth sydd yn diffinio 'anheddiad'? Onid yw Llywodraeth Cymru wedi datgan na ddylid cael unrhyw aneddiadau newydd?*

Nid ydym yn cynnig unrhyw aneddiadau newydd; maent yn estyniadau trefol at y trefi - byddai anheddiad newydd yn cael ei ddiffinio fel rhywbeth sydd yn hunangynhwysol gyda'i

amwynderau ei hun, cyflogaeth ayyb. Mae polisi cynllunio cenedlaethol wedi newid; yn ein hopsiynau twf cyntaf, roeddem wedi ystyried yr opsiwn o aneddiadau newydd, ond yn sgil y polisi cenedlaethol, nid yw hyn yn cael ei ystyried mwyach.

*Beth am y posibilrwydd o orsaf drenau yng Nghaerwent?*

Nid yw'r cynnig yma yn cael ei ystyried ond mae cynigion Metro De Cymru i gynyddu amlder y trenau yng Nghas-gwent a'r Fenni a'r Comisiwn Burns sydd yn ystyried opsiynau ar gyfer yr M4, gan ystyried gwelliannau sylweddol, yn enwedig o ran Cyffordd Twnnel Hafren. Mae yna drafodaethau yn parhau gydag Aelodau'r Cabinet am agweddau eraill o'r seilwaith teithio gan gynnwys cysylltiadau rheilffyrdd rhwng Lydney a Chyffordd Twnnel Hafren na sydd yn ddigonol ar hyn o bryd. Nid yw Caerwent yn rhan o'r trafodaethau yma. Mae gorsaf rhodfa Magwyr fodd bynnag wedi ei gydnabod gan Gomisiwn Burns ac rydym yn cefnogi hyn fel awdurdod cynllunio.

*A oes yna gyfle am ysgolion newydd? Mae safle Crug yn destun pryder: nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleoedd ysgol ychwanegol. Mae seilwaith Cil-y-coed yn bryder sylweddol e.e. nid yw rhai trenau yn cael aros yng Nghil-y-coed.*

Mae ysgolion newydd yn sicr yn rhywbeth i'w ystyried, yn enwedig o ran Dwyrain y Fenni a Dwyrain Cil-y-coed. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n cydweithwyr addysg; maent eisoes wedi rhoi syniadau i ni am gapasiti ysgolion oherwydd tan ein bod yn cyrraedd y cam cynllun adneuo, pan fyddwn yn gwybod yma mha ddalgylch y bydd y datblygiad arfaethedig yn rhan ohoni, maent yn methu rhoi sicrwydd i ni ynglŷn â sut i barhau. Mae'r safleoedd strategol yma yn cynnig gwybodaeth newydd er mwyn i ni weithio gyda hwy. Mae'n debygol fod y maint yn golygu bod yna sgôp ar gyfer darpariaeth ysgol gynradd ar y safle, a hynny ar gyfer y ddau le.

*A ddylid cael Cynllun B ar gyfer Trefynwy rhag ofn nad yw'r cynlluniau sydd ar waith i fynd i'r afael gyda'r broblem ffosffadau yn llwyddo i ddatrys y sefyllfa?*

Rydym wedi cael sgyrsiau manwl gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â sut y mae modd i ni ddod o hyd i ddatrysiadau. Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i ddod o hyd i ddatrysiad ond nid ydynt yn gwybod beth yw hyn eto – mae angen mwy o waith ymchwil a datblygu ar gyfer y strategaeth a ffefrir ond mae'n rhaid i ni symud ymlaen. Byddai modd i ni aros ond mae'r materion yma yn parhau i gynyddu, a dyma pam nad oes unrhyw ddyraniadau newydd yn Nhrefynwy. Mae yna safleoedd fodd bynnag sydd yn y cynllun fel safleoedd bonws – mae modd eu cadw, fel bod modd i ni adeiladu tai fforddiadwy yn y dref, nid yn y dyraniadau newydd ond ar y safleoedd cyfredol.

*A fydd safleoedd eithriedig yn medru cyflenwi cyfran o'r cartrefi fforddiadwy a defnydd cymysg?*

Mae polisi Llywodraeth Cymru yn datgan yn eglur bod rhaid i ni gael ein 'harwain gan gynllun', ac felly, mae angen i ni sicrhau bod y CDLl yn neilltuo safleoedd ar gyfer eu datblygu a bod unrhyw safleoedd eraill ddim yn cael eu datblygu, er mwyn sicrhau ein bod yn meddu ar y seilwaith a'r cysylltiadau cywir. Ond rydym yn bwriadu cael polisi eithriedig tai fforddiadwy, fel bod safleoedd eithriedig ar ein haneddiadau cynradd ar gyfer twf bach, cymesur, yn caniatáu safleoedd sydd ond yn cynnwys tai fforddiadwy.

*A oes modd i ni gynnwys storfa batri ar gyfer defnydd personol, ac felly, lleihau'r pris ar gyfer yr aelwyd?*

Oes, mae modd cynnwys hyn a byddwn yn ei ystyried.

*Gydag anelu am 50% o Dai Fforddiadwy, a fydd pobl maes o law yn medru prynu'r tŷ, sydd yn golygu na fydd hyn yn y pendraw yn 'dŷ fforddiadwy'?*

Mae yna dri math o dŷ fforddiadwy: rhent cymdeithasol, rhent canolraddol a pherchentyaeth cost isel. Gyda'r opsiwn olaf, mae fel arfer yn 50% ond yn medru cynyddu i 100% gyda'r unigolyn yn berchen ar y tŷ. Ond er mwyn cydymffurfio gyda'r polisi cynllunio cenedlaethol, rhaid bod y tai fforddiadwy yn fforddiadwy am byth, ac mae'r arian a ddaw o werthu cyfran ychwanegol o'r tŷ yn cael ei roi i'r landlord cymdeithasol cofrestredig a'i ail-fuddsoddi mewn tai cymdeithasol. Nid ydych yn colli tai fforddiadwy yn y pendraw fel sydd yn digwydd gyda'r hawl i brynu ond nid yw'r polisi yma yn weithredol yng Nghymru mwyach. Mae'r model yr ydym yn defnyddio, sydd yn caniatáu ar gyfer symud at 100%, yn gynllun rhannu ecwiti. Mae angen i ni adolygu'r model yn Sir Fynwy.

*Pa gyfleusterau eraill ydych yn disgwyl ar gyfer safle sy'n 900+? A fyddai'n ddigon mawr i gael pethau fel cyfraniadau at feddygfeydd ayyb er mwyn gwella'r cyfleusterau lleol?*

Mae'n rhy gynnar i ni ddweud beth yn union fydd ar y safleoedd. Bydd yna gynllunio meistr manwl o'r safleoedd strategol gyda'r hyrwyddwyr, budd-ddeiliaid, cydweithwyr a'r Comisiwn Dylunio ar gyfer Cymru. Bydd safleoedd o'r maint yna o bosib yn medru cynnwys gofod i letya Meddygfa Teulu, gan ddibynnu ar yr anghenion gofal iechyd yn yr ardal. Mae hyn oll i'w benderfynu ond bydd rhai amwynderau ar gyfer datblygiad o'r maint yma.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Roedd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths wedi gwneud y sylwadau canlynol:

*Rwyf am gynnig sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd eu sylwadau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar 1af Rhagfyr os yn bosib, ond os nad yw hyn yn digwydd, byddant yn cael eu hadlewyrchu wrth i'r broses symud ymlaen. Wrth gydnabod y sylwadau cynt, mae 'uchelgais' dal yn air pwysig iawn i'w gynnwys a'n bod yn sicrhau ansawdd. Rydym am weld ein cartrefi ac aneddiadau yn gosod safon cenedlaethol. Y rheswm pam fod aneddiadau wedi eu ychwanegu at y rhai presennol yw ein bod am wella canol y trefi. Bydd cysylltedd mor bwysig; bydd teithio llesol yn hanfodol. Rydym dal yn meddu ar uchelgeisiau ar gyfer trafnidiaeth rheilffordd: mewn sgyrsiau gyda Thrafnidiaeth Cymru, rydym eisoes wedi ymrwymo i 2 drên yr awr o leiaf ar rhwng Cas-gwent a Chil-y-coed ac yn ceisio sicrhau gwelliannau pellach. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffyrdd, ac fel rhan o hyn, byddaf yn gwthio'r achos ar gyfer gwella ffyrdd yn y sir. Mae'r datblygiadau arfaethedig ar gyfer Cil-y-coed yn golygu bod angen cyffordd newydd ar yr M48, neu ailddosbarthu'r ffordd honno – byddwn yn cyflwyno achos cryf i Lywodraeth Cymru.*

Ychwanegodd y Cadeirydd y sylwadau canlynol:

*O safbwynt Porthsgiwed, ymddengys fod yna nifer anghymesur o dai yn ardal Cil-y-coed a bod yna bryderon y bydd yr holl seilwaith yn dod i stop. Mae yna lawer o draffig yn barod yn sgil y datblygiadau sydd eisoes ar waith. Rhaid i ni ddysgu o'r camgymeriadau a wnaed yn ardal Cas-gwent gyda gorddatblygu. Mae yna gyfeiriadau at ehangu trefi ond mae canol y trefi yma yn ymddangos flinedig iawn – nid yw hyn yn gynnig da iawn e.e. Cil-y-coed. Mae'r tir sydd yn cael ei gynnig ar gyfer datblygiad Heol Crug yn denu llawer iawn o ymwelwyr – os ydym yn colli hyn, ni fydd rhyw lawer yn denu pobl i'r ardal. Onid oedd Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn gwrthwynebu datblygu cefn gwlad ac wedi nodi unrhyw effeithiau adweithiol ar dirwedd castell Cil-y-coed? Mae'r castell yn dioddef llifogydd yn wael iawn, ac mae etholwyr yn bryderus iawn am y nifer arfaethedig o dai.*
*Mae Aelodau yn rhannu pryderon bod teithio llesol yn cael ei ymgorffori o'r dechrau, yn hytrach nag fel ôl-ystyriaeth. Mae yna bryderon am iechyd a thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y*

*safleoedd arfaethedig. Rydym am weld safonau uchel gyda chartrefi sydd yn effeithlon o ran ynni. Mae Aelodau wedi codi pryderon am seilwaith, yn enwedig yn Ne Ddwyrain y Sir. Rydym am weld pobl yn ymwrthod rhag defnyddio eu ceir, ond i rai trigolion sydd am deithio allan o'r sir, nid yw rheilffyrdd yn addas bob tro. Rydym yn croesawu tai fforddiadwy ond eto, mae'r seilwaith yn hanfodol. Mae'n siomedig nad oes yna unrhyw ddyraniadau newydd ar gyfer Trefynwy, ond rydym yn gobeithio dod o hyd i ddatrysiad cyn hir. Rydym yn annog trigolion i fod yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.*

**8. <u>Terfyn Cyflymder o 20mya ar y B4245</u>**

Roedd Graham Kinsella a Mark Hand wedi cyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau gan Aelodau.

**Her:**

*Ai dyma'r unig newydd sydd yn cael ei gynnig ar gyfer peilot Glan Hafren neu a oes mwy yn debygol?*

O ran y Gorchymyn Diwygio presennol, sydd yn mynd i'r Aelod Cabinet ar 30ain Tachwedd, yr unig newidiadau yw'r 2 lain sydd ar y sleid ar y cyflwyniad (y rhai mewn gwyrdd, rhan amser gan ysgol gynradd Durand). Roedd aelodau Glan Hafren wedi gwneud cais am newid arall ar y rhan rhwng ochr ddwyreiniol Gwndy ac ochr orllewinol Rogiet: mae'n 40mya ar hyn o bryd gyda darn bach 60mya yn y canol, gydag Aelodau yn awgrymu y dylai'r holl ffordd fod yn 40mya. Nid oedd hyn wedi ei gynnwys yng Ngorchymyn Diwygio 5 yn sgil camgymeriad ond bydd yn rhan o Orchymyn Diwygio 7 yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

*Mae'r ardal o gwmpas ysgol gynradd Durand yn bryder gan fod y meini prawf yn datgan na ddylid bod yna eithriad o fewn 100 metr o ysgol? Beth am amser cinio yn yr ysgol a'r amseroedd ar gyfer amrywio'r terfynau cyflymder?*

Mae'r meini prawf o ran eithrio yn cyfeirio at y pellter i fynedfa'r ysgol. Yn yr achos hwn, mae mynedfa Durand oddi ar y B4245, ac arweiniodd hyn at gryn drafodaeth. Gan mai ysgol gynradd yw hon, credwyd mai prin iawn fydd yr achosion lle y mae plant yn gadael amser cinio heb gael eu goruchwylio.

*Sut y bydd newid i 20mya yn cael ei gyfathrebu i'r gyrwyr?*

Y bwriad yw amlygu hyn drwy gyfrwng arwyddion sydd yn fflachio: bydd y goleuadau oren sy'n fflachio yn fflachio yn ystod yr amseroedd hyn a bydd yr arwydd yn dangos '20mya pan fydd y golau yn fflachio', ac felly, bydd yn eglur i'r holl yrwyr. Roeddem wedi ymgynghori gyda'r ysgol a'r amseroedd y maent yn ffafrio.
*Yn sgil y canllaw eithrio sydd newydd ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, a yw'n bosib y bydd y 20mya arfaethedig yn Nhrefynwy yn newid?*

Nid ydym yn medru ateb hyn eto ond byddwn yn ystyried hyn ac yn ateb y cwestiwn y tu allan i'r cyfarfod.
**<u>MARK HAND YN GYFRIFOL AM WNEUD HYN UNWAITH BOD YR ADOLYGIAD WEDI EI GYNNAL</u>**

*A fydd yn bosib cynnal adolygiad mewn blwyddyn? Yn enwedig o feddwl am y posibilrwydd o ganlyniadau na sydd wedi eu bwriadu e.e. gyda gyrwyr yn osgoi'r B4245 drwy fynd lawr ffyrdd cul, ac roedd bron yn achosi damweiniau.*

Rydym yn hapus i gynnal adolygiad holistaidd o'r B4245 gydag Aelodau. Byddai'n werth cwrdd cyn hir er mwyn llywio hyn. Dylid nodi fodd bynnag y bydd llawer o'n hadnoddau yn y flwyddyn ariannol nesaf yn mynd i ffocysu ar weithredu'r newid deddfwriaethol ar draws Cymru.

*Nid oes arwydd ysgol ar y ffordd y tu allan i ysgol Durand– a oes modd edrych ar hyn?*

Oes – mae hwn yn bwynt da a byddwn yn ystyried hyn.

*A fydd yna fonitro ar waith, yn enwedig ymhlith gyrwyr sydd yn gyrru agos at 40mya?*

Mae un lleoliad monitro yn yr ardal hon eisoes. Byddwn yn cadw hyn ac yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda 30mya. Mae yna 'induction loops' wedi eu torri i mewn o'r cerbytffordd yn y ddwy ardal beilot – byddant yn parhau i fonitro dros y 5 mlynedd nesaf.

*A fydd y ffordd hon yn cael ei hadolygu os nad yw'r terfynau cyflymder yn gweithio?*

Bydd – byddwn yn edrych ar hyn fel rhan o adolygiad holistaidd.

*A fydd y llwybr o Gil-y-coed i Rogiet yn 30mya nawr?*

Yr unig ddarn sydd yn cael ei drafod yw Ffordd Woodstock hyd at Gylchdro Castle Gate – nid ydym yn edrych ar newidiadau eraill ar y B4245. Unwaith eich bod yn cyrraedd aneddiadau Rogiet neu Caldicot, bydd yn 20mya, ac eithrio'r ardaloedd sydd newydd eu trafod.

*Sut y mae tŷ yn cael ei ystyried fel yna 'dir o'i flaen'? Os yw cefn neu ochr tŷ yn wynebu'r ffordd, a fyddai'n cael ei gyfrif? Beth am y tai sydd yn wynebu ond wedi eu gosod nôll o'r ffordd?*

Mae'n golygu 'libart' mewn modd mwy cyffredinol, yn enwedig ble mae'r prif fynedfa wedi ei leoli. Mae'r holl dai yn cefni ar y rhan yr ydym yn cynnig sydd yn mynd nôl i 30mya – mae'r drysau blaen a'r prif fynedfeydd ar yr ochr arall. Hyd yn oed gyda gardd flaen hir, byddai'r tŷ yn cael ei ystyried fel bod yna 'dir o'i flaen'. Yr unig wahaniaeth fyddai os yw tŷ yn wynebu'r ffordd ond mae mynediad ar ochr y stryd/ lôn y tŷ a rennir/cul de sac e.e. rhannau o Heol Henffordd yn y Fenni.

*Yng Ngilwern, mae'r ffordd yn mynd o 60mya i 30mya. Y broblem fwyaf yw bod gyrwyr yn gyrru'n rhy gyflym erbyn eu bod yn cyrraedd y man 30mya – a fydd yna broblem gyda gyrwyr yn mynd o 40 neu 50 i 20 mewn da o bryd? O ran Rogiet, a ydy gyrwyr yn mynd o 50 i 20 neu 30 i 20?*

Rydym yn nodi'r pwyntiau yma. Rydym wedi ceisio sicrhau nodweddion 'gateway' e.e. 'roundels' ar y ffyrdd, arwyddion yn dynodi'r 20mya a'r dyfeisiau sydd yn dangos cyflymder. Fel arfer, mae yna byffers yn eu lle wrth i'r cyflymder leihau. Dylai gyrwyr fod yn bwrw'r cyflymder yma erbyn eu bod yn cyrraedd yr ardal gan fod yna arwyddion i'w gweld o flaen llaw.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i'r Aelodau am eu sylwadau ac i'r swyddogion am weithio gydag Aelodau Severnside wrth geisio dod o hyd i ddatrysiad sydd yn elwa trigolion. Bydd hyn yn mynd i'r Aelod Cabinet at gyfer ei gymeradwyo ar 30ain Tachwedd.

9. **Cytuno ar wahardd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer yr eitemau canlynol**

10. **Galw i Mewn: Tir Drws Nesaf i Ysgol Gyfun Cil-y-coed**

Roedd y Cynghorwyr Taylor a Howarth wedi amlinellu'r rhesymau dros alw i mewn:

- *Yn 2018, roedd y Cyngor wedi cytuno i greu cwmni datblygu er mwyn ymyrryd yn y farchnad dai leol. Yn 2020, roedd yna brofi a chafwyd trafodaeth bellach.*
- *Ein dealltwriaeth ni yw bod y safle yma wedi ei ystyried gan y Cyngor ar gyfer dysgu, adeiladu'r capasiti mewnol a'n datblygu ei ddealltwriaeth ynglŷn â darparu unedau fforddiadwy, gyda'r bwriad i ddatblygu cwmni datblygu tai a'n defnyddio safle Cil-y-coed fel safle prawf.*
- *Roedd yr adroddiad i'r Cabinet yn ddiweddar yn wahanol iawn. Nid oedd nifer o opsiynau a oedd ar gael wedi eu harchwilio'n llwyr ac rydym nawr yn wynebu sefyllfa ariannol wahanol iawn.*
- *Rydym o'r gred nadd yw'r broses sydd wedi arwain at y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor wedi bod yn gwbl dryloyw ac ni ystyriwyd yr holl opsiynau.*
- *Mae'r meysydd sydd angen eglurhad yn cynnwys: nid oedd yr opsiwn i wneud cynnig ar y safle yn gwbl agored; roedd maniffesto'r Blaid Lafur wedi addo sefydlu cwmni tai ac ymatal rhag cael gwared ar asedau; natur y derbynneb cyfalaf; dirprwyo i swyddogion ac aelod Cabinet unigol.*
- *A ydym wedi gwerthuso'r opsiwn yma fel yr opsiwn cywir mewn gwirionedd, o feddwl ei fod yn brif safle, nid yn safle eithriedig*
- *Petawn yn symud ymlaen gyda'r safle hwn, byddem yn edrych am dderbynneb cyfalaf sylweddol – os nad yw hyn bosib, ni fyddai modd cyfiawnhau hyn i bobl Sir Fynwy.*

Yn dilyn trafodaeth rhwng Aelodau a swyddogion, roedd Aelodau wedi datgan nad yw'r adroddiad yn cynnwys digon o fanylion - yn enwedig o ran gwerthuso'r opsiynau - ond roedd y rhan fwyaf wedi eu cysuro o ran y canlyniad. Dymunai swyddogion gadarnhau y byddai yna dderbynneb cyfalaf yn sgil y cynnig hwn.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Roedd y Pwyllgor wedi cytuno i dderbyn penderfyniad y Cabinet, a hynny'n dilyn pleidlais o 5 i 2.

11. **Nodi dyddiad y cyfarfod nesaf fel 12fed Ionawr 2023.**